# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2022

Amser: 13.00 - 14.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13286

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Alun Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Altaf Hussain AS (yn lle Tom Giffard AS)<br>Carolyn Thomas AS<br>Sioned Williams AS |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i Sioned Williams AS wrth i'r Pwyllgor barhau â'i ymchwiliad ar y cyd â'r

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Tom Giffard AS, a dirprwyodd Altaf Hussain AS ar ei ran.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg: Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd y dylid ystyried effaith canlyniadau Cyfrifiad 2021, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar yr ymchwiliad o ran sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i alw am ragor y dystiolaeth ar y mater hwn ac i ddychwelyd ato mewn cyfarfod yn y dyfodol.